

Annwyl Riant / Gwarcheidwad,

Rhagfyr 18fed, 2020

Ysgrifennaf atoch mewn perthynas â'r trefniadau ailagor ysgolion ym mis Ionawr 2021. Yn anffodus, mae'r sefyllfa bresennol o ran trosglwyddiad Covid-19 ledled Cymru yn ei gwneud yn anodd iawn i ni ragweld yr effaith y bydd yn ei chael ar lefelau staffio yn ein hysgolion yn dilyn gwyliau'r Nadolig.

Ein blaenoriaeth yw lleihau'r tarfu ar addysg ein plant a'n pobl ifanc gymaint â phosibl. Fodd bynnag, rydym yn cydnabod y bydd angen i ysgolion adolygu eu lefelau staffio ar ddechrau'r tymor newydd ac o ganlyniad bydd angen rhywfaint o hyblygrwydd yn dibynnu ar amgylchiadau lleol.

O ganlyniad, mae'r trefniadau ar gyfer mis Ionawr fel a ganlyn:

- **Dydd Llun, Ionawr 4ydd, diwrnod Hyfforddiant Mewn Swydd** (ysgol ar gau felly ni fydd darpariaeth gofal plant na dysgu o bell).
- **Ionawr 5ed a'r 6ed- diwrnodau paratoi-** bydd angen hyn er mwyn asesu lefelau argaeledd staff, darparu hyfforddiant ychwanegol, adolygu pob asesiad risg ac ystyried unrhyw ofynion pellach mewn perthynas â Phrofi, Olrhain, Diogelu. Bydd eich ysgol yn cysylltu â chi ynglŷn â hyn. (bydd yr ysgol ar gau, felly ni fydd darpariaeth gofal plant na dysgu o bell).
- **Ionawr 7fed ac 8fed-** bydd eich ysgol yn rhoi gwybod i chi os yw disgyblion yn gallu dychwelyd i'r ysgol yn ddiogel. Efallai mai dim ond ychydig o ddosbarthiadau all ddychwelyd, a bydd rhai disgyblion yn derbyn eu haddysg o bell. Bydd cymorth ar y safle ar gael i blant gweithwyr hanfodol a dysgwyr sy'n agored i niwed; fodd bynnag, fel o'r blaen dim ond pan fydd holl opsiynau eraill wedi'u hystyried y dylid defnyddio'r gwasanaeth hwn. Mae hyn er mwyn diogelu lles disgyblion a staff yn yr ysgolion. Cysylltwch â'ch ysgol i gael rhagor o wybodaeth.
- **Wythnos yn dechrau dydd Llun, Ionawr 11eg-** heblaw am amgylchiadau eithriadol bydd disgyblion yn dychwelyd i'r ysgol. Bydd y trefniant hwn yn dibynnu ar amgylchiadau lleol a bydd eich ysgol yn anfon gwybodaeth atoch yn nes at y dyddiad.
- **Wythnos yn dechrau dydd Llun, Ionawr 18fed-** bydd pob disgybl yn dychwelyd i'r ysgol ar gyfer dysgu wyneb yn wyneb, **oni bai bod amgylchiadau lleol eithriadol yn atal hyn rhag digwydd.**
- **Plant Meithrin-** bydd eich ysgol yn rhoi gwybod i chi am eich dyddiadau dechrau
- Fe fydd Clybiau Brechwast a phrydau ysgol yn aildechrau ar 7 Ionawr.

Gareth Morgans, BAdd/BEEd; MGw/MSc

Cyfarwyddwr Addysg a Gwasanaethau Plant,
Neuadd y Sir, Gaerfyrddin, Sir Gaerfyrddin SA31 1JP

Director of Education & Children's Services,
County Hall, Carmarthen, Carmarthenshire SA31 1JP



Mae croeso i chi gysylltu â mi yn y Gymraeg neu'r Saesneg

You are welcome to contact me in Welsh or English

Rwy'n gobeithio y bydd y wybodaeth hon yn rhoi rhywfaint o eglurder i chi ar ddychwelyd i'r ysgol, fodd bynnag, bydd eich ysgol yn rhoi rhagor o wybodaeth i chi ddechrau mis Ionawr. Gwn nad yw'r tymor hwn wedi bod yn rhwydd a hoffwn ddiolch i chi am eich cydweithrediad a'ch cefnogaeth barhaus.

Mae'n hanfodol ein bod yn gwneud popeth o fewn ein gallu i geisio lleihau lledaeniad y feirws, mae'n rhaid inni barhau i ddilyn y canllawiau i amddiffyn ein hunain ac eraill.

Er mwyn helpu gyda gweithredu **Profi, Olrhain, Diogelu** (TTP) dros gyfnod gwyliau'r Nadolig, bydd y trefniadau canlynol yn berthnasol rhwng **5:00 prynhawn dydd Gwener 18fed o Ragfyr** hyd at **12:00 (hanner nos) ddydd Gwener 1af Ionawr 2021**.

- Os oes gan eich plentyn, neu unrhyw aelod o'ch cartref **symptomau Covid-19**, gofynnwch am brawf drwy ffonio **119** neu ddefnyddio'r porth ar-lein <https://gov.wales/apply-coronavirus-covid-19-test>
- Os yw eich plentyn yn derbyn **canlyniad prawf Covid positif**, cysylltwch â Llesiant Delta (ttp@deltawellbeing.org.uk neu 0300 3332222) gan ddarparu enw, grŵp blwyddyn ac ysgol eich plentyn. **Sylwch fod pob cyfnod hunan-ynysu bellach wedi newid i 10 diwrnod ac nid 14.**
- Os bydd eich plentyn yn dod yn symptomatig, **nid yw'n ofynnol** i chi roi gwybod i Llesiant Delta am hyn. Bydd y gofyniad hwn yn aildechrau ddydd **Gwener 1 Ionawr** i alluogi ysgolion i gynllunio ar gyfer dechrau'r tymor newydd.

Diolch yn fawr iawn i chi am eich cefnogaeth a'ch cydweithrediad. Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd Dda i chi a'ch teuluoedd.

Yn gywir,

Gareth Morgans

Cyfarwyddwr Addysg a Gwasanaethau Plant

Gareth Morgans, BAdd/BEEd; MGw/MSc

Cyfarwyddwr Addysg a Gwasanaethau Plant,
Neuadd y Sir, Gaerfyrddin, Sir Gaerfyrddin SA31 1JP

Director of Education & Children's Services,
County Hall, Carmarthen, Carmarthenshire SA31 1JP



BUDDSODDWR | INVESTORS
MEWN POBL | IN PEOPLE

Mae croeso i chi gysylltu â mi yn y Gymraeg neu'r Saesneg

You are welcome to contact me in Welsh or English